

......................................................................................

Mae hen, hen chwedl enwog gan Aesop sy'n sôn am frân oedd bron â marw oherwydd syched. Wrth weld jwg gydag ychydig o ddŵr ynddi, meddyliodd fod ei phroblemau drosodd ac y byddai'n cael yfed y dŵr oedd ynddi. Rhoddodd ei phig i mewn i yfed ond gan mai ychydig o ddŵr oedd yn y jwg, doedd hi ddim yn gallu ei gyrraedd. Yna, cafodd syniad. Cydiodd mewn carreg fach a'i gollwng i mewn i'r dŵr. Cydiodd mewn un arall o gollwng honno i mewn i'r dŵr … ac un arall … ac un arall … ac un arall … ac un arall … nes, yn y diwedd, roedd lefel y dŵr wedi codi'n ddigon uchel iddi fedru ei yfed. Mae'n amlwg bod brain, yn yr hen ddyddiau, wedi meistroli'r sgil o Ddatrys Problemau!

Roedd chwedlau Aesop yn enwog am eu bod yn cynnwys moeswers - roedden nhw'n cynnwys gwers neu neges. Mae'n siŵr mai'r wers yn y chwedl yma yw y byddwch chi'n llwyddo i wneud unrhyw beth, ond i chi ddyfalbarhau. Mewn geiriau eraill, "Dyfal donc a dyrr y garreg."

Nid brain yn unig sy'n gallu datrys problemau! Mae gan tsimpansïaid y sgil yma, hefyd - fel y mae arbrawf yn Sŵ Leipzig, Yr Almaen, wedi profi! Yno, rhoddwyd cneuen fwnci neu gneuen ddaear - *peanut* - mewn tiwb tenau o wydr gydag ychydig o ddŵr yn y gwaelod a chlymwyd y tiwb wrth wal cawell tsimpansî. Pan welodd yr anifail y gneuen, aeth ati a cheisio'i thynnu o'r tiwb â'i fys, ond heb lwc gan fod y tiwb yn hirach o lawer na'i bawen. Yna, cafodd syniad. Aeth at y cafn dŵr oedd yn y gawell, sugno ychydig o'r dŵr i'w geg ac yna poeri'r dŵr i mewn i'r tiwb. Cododd lefel y dŵr - a'r gneuen. Rhoddodd ei fys i mewn, ond nid oedd yn gallu cyrraedd y gneuen o hyd. Aeth ati i boeri mwy o ddŵr i mewn i'r tiwb … ac eto … ac eto … ac eto … nes bod lefel y dŵr a'r gneuen yn ddigon uchel yn y tiwb iddo fedru cymryd y gneuen allan a'i bwyta.

Defnyddiodd tsimpansî arall ffordd fwy gwreiddiol o godi lefel y dŵr a chael hyd i'r gneuen. Gwnaeth bi-pi i mewn i'r tiwb! Yna, cymerodd y gneuen o'r tiwb a'i bwyta! Datrys Problemau go iawn!

Mewn arbrawf tebyg gyda gorilaod ac orang-wtanod, llwyddodd pob un o'r orang-wtanod i ddod o hyd i'r gneuen ond ni lwyddodd un o'r gorilaod.

Aeth y gwyddonwyr ymlaen wedyn i wneud yr un arbrawf gyda phlant. Dim ond dau o blith 24 o blant pedair oed lwyddodd i ddatrys y broblem. Llwyddodd deg o blith 24 o blant chwech oed i ddatrys y broblem a llwyddodd 14 o blith 24 o blant wyth oed i ddatrys y broblem.